

ddigon o newyddion mewn papur pris dimai, y byddai'n well ganddynt dalu ceiniog er mwyn cael papur mwy o faint. Daliodd Tegai ei dir i ddechrau ond, wedi pum mis, lliodd ac o Fehefin 1856 ymlaen dyblwyd maint y papur, codwyd ei bris i geiniog a rhoddwyd enw newydd arno, *Yr Arweinydd*.

Yr hyn a ddaeth i'r golwg yn gynnar yng ngyrfa *Yr Eifion* oedd uchelgais mawr Tegai. Hoffai weld y papur yn datblygu'n

mewn swyddfa cyfreithiwr. Yn 1856 prynodd fusnes llyfrwerthwr a rhwymwr llyfrau yn y dref, ac yna, tua 1860, prynodd wasg Tegai. Ni ddysgodd Francis Evans y grefft o argraffu ei hun ond cyflogodd argraffwyr a dechreuodd gyhoeddi llyfrau yn 1862. Evans oedd y cyntaf o argraffwyr Pwllheli i gyhoeddi hanes un o gapeli'r ardal a chasgliad o gerddi bardd lleol.

Y casgliad — *Byr Ganeuon* gan Robert Griffith (Patrobas), Nefyn — oedd y cyntaf o'i

darlith am eisteddfodau cenedlaethol Pwllheli, fe fyddai'n diddorol pe gellid gwybod y nifer ohonynt a argraffwyd. Nid yw hynny, wrth gwrs, yn bosibl ond fe welir copïau o'r gyfrol ar werth o hyd yn y siopau llyfrau ail-law.

Argraffwr mwyaf cynhyrchiol Pwllheli oedd Richard Jones, brodor o Foduan. Cynhaliwyd ei wasg ganddo ef a'i deulu am bron gan mlynedd. Er i un ffynhonnell honni mai gyda Francis Evans y dysgodd Jones ei grefft fe ddywed un arall mai yng

Pan gynhaliwyd Cymdeithasfa'r Methodistiaid Calfinaid ym Mhwllheli yn 1879 ef a gafodd y gwaith o argraffu'r rhaglen, nid Richard Jones yr Annibynnwr. Hwnnw oedd yr arwydd cyntaf bod enwadaeth yn dechrau gwthio'i drwy'n i mewn i'r byd argraffu yn y dref.

Yn 1888 bu farw Robert Owen ac fe gymerodd Richard Jones y busnes yn 74 Stryd Fawr drosodd. Yn ystod yr un flwyddyn bu un Robert Roberts yn argraffu cyfrifon adeiladu eglwys newydd yn y dref, ond

“Fy Arwyddair fo



Rhyddid.”—D. WYN.

# YR EIFION,

SEF NEWYDDIADUR WYTHNOSOL.

RHIF. I.]

DYDD IAU, IONAWR 3, 1856.

[PRIS DIMAI.]

AT Y DARLLENYDD.

Y mae ein cyfeillion yn Mhwllheli braidd yn drwgwyddas wrthym am na fussem yn gwneud yr Eifion yn Bapur ceiniog. Cerdyna fydd llais cyffredin ein derbynwyr fe ellir ei chwyllo yn hawdd: ond yr ydym yn meddwl y caiff y darlennydd fwy o newyddion am ddinai nag o bethau eraill.

meddai, "y mae eich sennal yn myned waeth waeth o hyd. — Mi-ddywdai chwi beth, gellwch dreio cant o gyfluniau, ond ni wna yr un o honnynt ledd hyd oni chafwch wyntyllydd yn y fenestr; dyna beth sydd eisiau yn y ff hwn, ac ni chwech ddim baddwch yna hyd hynny." Pan ymadawodd y gwylwyr, yr oedd Abel mewn tipyn o bechled, o herwydd, methu gwylw'r pa

eto nid oedd y mwg yn myned i frwy yn sylf i'r sennal, gan hynny, efe a seith y bore canlynol i elw am y saer, yr hwn, erbyn y dydd canlynol, a wnaeth y sennal yn gulach, yr hyn a eiddiodd i bwr ychwaneg o dynedd, ac i llyw'r iachau y drwg, fel pan ddychwelodd Abel adref y noson hono, cafodd aelwdd lán tan gloew a draclae'r, a gwaig mor fwy'n a sennal ag un eiddig yn yr holl

GYDLADWYR CYMRU.—Dyma beth sydd yn Nghymru, ac yn lled gyffredol tu arall i glawdd Offa, sef newyddion am DDIMAI.

gylchgrawn cenedlaethol amhleidiol, olynedd i'r *Gwladgarwr*, papur wythnosol poblogaidd o Gaer a Lerpwl a welodd ei ddiwedd yn 1841. Cynhwysai'r *Gwladgarwr* lawer o wybodaeth gyffredinol ac ym marn Tegai, a oedd hefyd am weld y papur yn cynnwys llenyddiaeth, roedd gwir angen cylchgrawn o'r fath.

Yn anffodus i freuddwydion Tegai roedd *Y Gwyddoniadur* wedi dechrau ymddangos mewn rhifynnau ers dwy flynedd, ac yn fuan wedi dechrau cyhoeddi *Yr Eifion* dechreuodd Hugh Humphreys, Caernarfon, gyhoeddi rhifynnau cyntaf ail gyfrol *Addysg Chambers*. O feddwl beth oedd y sefyllfa ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth gyffredinol cyn hynny yn y Gymraeg roedd mwy na digon ohono ar gyfer y cyhoedd yn 1856.

Llwyddodd Tegai i gario ymlaen tan 1859 pan benderfynodd, yn gryn golledwr gyda'i wasg, yn ôl Charles Ashton, ddychwelyd at y Weinidogaeth a derbyniodd alwad o Aberdâr. Gadawodd *Yr Arweinydd* yn nwylo ei fab, Henry Hughes, ac fe gadwodd ef y papur yn fyw am ychydig dros chwe mis cyn dilyn ei dad i Aberdâr.

Y nesaf yn y maes oedd Francis Evans, genedigol o Lanarmon yn Eifionydd, a oedd wedi dechrau ei gyrfa fel clerics 34

gyhoeddiadau. Mae'r gyfrol yn cynnwys un gerdd hynod ddiddorol i bobl sydd â diddordeb yn yr hen ddulliau o adloniant yn yr ardal, cyn i law oer Methodistiaeth droi pawb yn drwysur.

Ymddengys bod Francis Evans wedi rhoi'r gorau i weithio'r wasg yn 1871, oherwydd roedd argraffwr arall, Robert Owen, wedi dechrau cyhoeddi llyfrau ym Mhwllheli erbyn hynny.

Robert Owen oedd y cyntaf o argraffwyr a chyhoeddwy'r dref a oedd, cyn belled ag y medraf weld, yn enedigol o'r lle. Bu wrthi'n argraffu ym Mhwllheli am dros 17 o flynyddoedd, o 1871 hyd 1888. Fel Francis Evans fe gynhyrchoedd un llyfr y flwyddyn ar gyfartaledd ond roedd cryn wahaniaeth rhwng cynnyrch y ddau. Llyfrau bychain 32 o dudalennau neu lai oedd bron pob un o gynnyrch Francis Evans ond roedd bron hanner rhai Robert Owen yn llyfrau mwy, efo pedwar ohonynt dros gant o dudalennau ac un yn cynnwys dau gant o dudalennau.

Yn 1875 argraffodd Robert Owen ddetholiad o *Cyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli, 1875*. Hwn, y mae'n debygol, oedd yr enghraifft gynharaf o gyhoeddi detholiad o gyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol ac, fel y dywedodd Hywel Teifi Edwards mewn

ngweithdy Alltud Eifion yn Nhremadog y digwyddodd hynny. Beth bynnag am hynny, cafodd waith gan Robert Owen, ond yn 1876 agorodd ei fusnes ei hun, y Minerva Printing Works, yn 19 Stryd Fawr, Pwllheli.

Pan agorwyd hwnnw, felly, roedd gan Bwllheli, am y tro cyntaf yn ei hanes, ddwy wasg ar waith. Gwelwyd rhagor o lyfrau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ond adlewyrchai'r datblygiad gynydd sylweddol hefyd yn yr amrywiaeth o waith a oedd ar gael i argraffwyr. Dechreuodd Richard Jones argraffu cerddoriaeth, hen nodiant a thonic sol-ffa, yn 1878, a gwnaeth hynny i gerddorion o bob rhan o Gymru ac yn eu plith yr enwog David Jenkins.

Wrth ddechrau gwneud hynny roedd Richard Jones yn datblygu'n rhywbeth amgenach nag argraffwr lleol ac, yn 1878, cafodd y gwaith o argraffu cyfrifon Coleg Annibynnol y Bala. Yn 1884 dechreuodd argraffu misolyn newydd, *Cydymaith yr Ysgol Sul*, ateb yr Annibynnwr i *Trysorfa'r Plant* y Methodistiaid. Parhaodd hwnnw am ryw bum mlynedd. Drwy'r Annibynnwr, mae'n debyg, sicrhaodd Richard Jones lawer o waith argraffu cyfieithiadau o dractau crefyddol.

Os oedd Richard Jones yn Annibynnwr mae'n debyg mai Methodist oedd Robert Owen.

ymddengys nad oes enghraifft arall o'i waith. Yn 1889 agorodd Owen Humphreys, brodor o Gaernarfon, wasg yn y dref. Methodist oedd hwnnw, un a welodd gyfle i elwa i ryw raddau ar y gystadleuaeth rhwng yr enwadau yn y cych. Serch hynny, ymddengys nad oedd pobl y wlad mor gaeth i enwadaeth â phobl y dref, ond y duedd oedd i Richard Jones yr Annibynnwr gael gwaith ei enwad ei hun a'r Bedyddwyr; i Owen Humphreys gael gwaith y Methodistiaid; ac i'r Eglwys aros yn ffyddlon i Richard Jones gan mai newydd-ddyfodiad oedd Owen Humphreys.

Dechreuodd y capeli, a oedd eisoes wedi bod wrthi'n cael argraffu testunau a rhaglenni eisteddfodol, roi rhagor o waith i'r argraffwyr trwy ddechrau'r ffasiwn o gyhoeddi adroddiadau blynyddol a gynhwysai'r rhestr aelodau a'u cyfraniadau. Capel Annibynnwr Penlan, gydag adroddiad 1891 gan Richard Jones, oedd y cyntaf a chapel Methodistiaid Penmount gydag adroddiad 1892 o wasg Humphreys oedd yr ail.

Cyhoeddiadau hynotaf Richard Jones oedd y ddau newyddiadur, *Udgorn Rhyddid* a'r *Pwllheli Chronicle*. Ymddangosodd y cyntaf yn 1888, yn bapur wythnosol a sefydlwyd gan Lloyd George i hyrwyddo ei ymgyrch seneddol. Argraffwyd 3,500 o gopïau yr